

## DAFYDD ab IEUAN ab IORWERTH (bu farw 1503), esgob Llanelwy

**Enw:** Dafydd ab Ieuan ab Iorwerth  
**Dyddiad marw:** 1503  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** esgob Llanelwy  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd  
**Awdur:** John Edward Lloyd

Yn ôl yr achau yr oedd yn disgyn o Dudur ap Rhys Sais. Yn Trefor, ger Llangollen, yr oedd cartref y teulu - yn ' Gavela Rosseriet,' efallai (gweler G. P. Jones, *Extent of Chirkland*, 15).

Daeth Dafydd ab Ieuan yn warden ysgol Rhuthyn ac yn abad Valle Crucis, gan ddilyn John ap Richard (gweler **Peniarth MS 176** (53)), yn Valle Crucis. Yr oedd yr abad yn noddwr hael i'r beirdd ac y mae **Gutun Owain** a **Guto'r Glyn** yn tystio'n frwd i'w groeso.

Pan fu farw Michael Diacony gwnaed yr abad yn esgob Llanelwy ac fe'i cysegrwyd 26 Ebrill 1500 gan yr archesgob Morton. Bu farw dair blynedd wedi hynny.

### Awdur

**Syr John Edward Lloyd**, (1861 - 1947)

### Ffynonellau

Stubbs, *Registrum Sacrum Anglicanum* (1897), ii, 95

Williams, *Gwaith Guto'r Glyn* (1939), 1939

J. Y. W. Lloyd, *History of the Princes, the Lords Marcher, and the Ancient Nobility of Powys Fadog*, iii, 385

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q18527377](#)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawffraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Trannu

Arddull APA

x

Lloyd, J. E., (1953). DAFYDD ab IEUAN ab IORWERTH (bu farw 1503), esgob Llanelwy. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-DAFY-API-1503>

Cyfeirnod

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddiadau  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government